Pecyn Dogfen Cyhoeddus


| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) | Dyddiad: | Dydd Mercher 19 Mehefin 2024 |
| | | Deialu Union: | 01824 712568 |
| | | e-bost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |


Annwyl Syr / Fadam

Fe'ch gwahoddir i ddod i gyfarfod o'r **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)** am **10.00 am, DYDD MERCHER, 26 MEHEFIN 2024** yn **TRWY CYFRWNG FIDEO**.

Yn gywir

Gary Williams
Swyddog Monitro

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**MYFYRDOD TAWEL**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD** (Tudalennau 5 - 6)

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod CYSAG Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2024.

**5 CANOLFAN GENEDLAETHOL ADDYSG GREFYDDOL CYMRU** (Tudalennau 15 - 16)

Derbyn cyflwyniad gan Dr Joshua Andrews ar waith Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru.

**6 RE HUBS** (Tudalennau 17 - 18)

Derbyn cyflwyniad ar RE Hubs gan Jennifer Harding-Richards, Arweinydd RE Hubs.

**7 DADANSODDI ADRODDIADAU AROLYGON** (Tudalennau 19 - 26)

I dderbyn a dadansoddi Adroddiadau Arolygon diweddar Estyn.

**8 CCYSAGC** (Tudalennau 27 - 28)

Derbyn cofnodion cyfarfod diwethaf y Gymdeithas, a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2024, a derbyn diweddariad ar lafar ar gynhadledd CCYSAGC a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2024.

**9 DYDDIAD CYFARFODYDD NESAF SIR DDINBYCH**

Hydref 2024 – 15 Hydref 2024

**AELODAETH**

**Cynghorwyr yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Ellie Chard
Cheryl Williams
Ann Davies
Gill German
Merfyn Parry
Huw Williams
Delyth Jones
Emrys Wynne

**Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol**

Suzy Sturley
Mr. Dominic Oakes
Y Parch. B H Jones
Y Parch. Martin Evans-Jones
Jennie Downes
Collette Owen

**Yn cynrychioli Cymdeithasau Athrawon**

Susan Williams
Leah Crimes
Sarah Griffiths

**Aelodau Cyfetholedig**

T. Ap Siôn

**COPÏAU AT:**

Bob Cynghorydd er gwybodaeth
Y Wasg a Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd drwy gyfleuster fideo-gynadledda ddydd Iau, 22 Chwefror 2024 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

**Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych -** Y Cynghorwyr Ellie Chard, Cheryl Williams, Ann Davies, Gill German, Delyth Jones ac Emrys Wynne

**Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol**

Jennie Downes, Collette Owen a Dominic Oaks

**Arsylwr –** Y Cynghorydd Jon Harland

## HEFYD YN BRESENNOL

Ymgynghorydd Addysg Grefyddol (PL), Prif Reolwr Addysg (JB) a Gweinyddwyr Pwyllgorau (SJ a NPH [Gwesteiwr Zoom])

Roedd dau aelod o staff addysgu o Ysgol Uwchradd Prestatyn hefyd yn bresennol ar gyfer eitem rhif 6 ar y rhaglen.

## MYFYRDOD TAWEL

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig funudau o fyfyrdod tawel.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Leah Crimes, Susan Williams a Sarah Griffiths.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Jon Harland i’w gyfarfod cyntaf o’r CYSAG.

Dywedodd y Cynghorydd Cheryl Williams wrth y pwyllgor mai hwn fyddai ei chyfarfod diwethaf fel aelod o’r CYSAG. Roedd hi ar fin dod yn Faer ac ni fyddai modd iddi ymrwymo’n llwyr i fynychu cyfarfodydd.

Dywedodd Mr Dominic Oaks wrth y Pwyllgor y byddai’n rhaid iddo adael y cyfarfod yn gynnar.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad oedd yn rhagfarnu.

## 3 MATERION BRYS Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Dim.

Ymddiheurodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol fod y wybodaeth am yr hawl i dynnu disgyblion allan o wersi yn hwyr, ar ôl i'r rhaglen gael ei chyhoeddi.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2023 (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

Materion cywirdeb – Collette Owen Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol a Chredoau Athronyddol Anghrefyddol, cadarnhaodd ei bod wedi anfon ymddiheuriadau, ond nad oeddent wedi'u cynnwys yn y rhestr o ymddiheuriadau.

Materion yn codi – cyfeiriodd Jennie Downes at y cofnodion ar gyfer eitemau rhif 5 a 6 ar y rhaglen, lle'r oedd yn crybwyll yr adroddiad drafft blynyddol a'r maes llafur cytunedig. Dywedodd wrth y Pwyllgor, fel rhan o'i gwaith ar gyfer CCYSAGC, eu bod yn adolygu lle'r oedd y dogfennau hynny ar gael ac yn cael eu cadw. Cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol fod copi o'r adroddiad blynyddol drafft wedi'i gynnwys fel rhan o'r rhaglen a gyhoeddwyd, ond y byddai'n fuddiol o bosibl cadw copi ar wefan Cyngor Sir Ddinbych, fel ei bod yn hawdd cael gafael arno. Roedd ysgolion yn gallu ei weld ar rwydwaith fewnol, ond byddai'n addas iddo fod ar gael i bawb.

***Nodwyd,*** *yn amodol ar yr uchod, bod cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2023 yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.*

## 5 DILEU'R HAWL I DYNNU DISGYBLION ALLAN O WERSI CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG

Rhannodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y cyngor a roddwyd i ysgolion mewn perthynas â'r hawl i dynnu plant allan o wersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Atgoffodd yr Aelodau y cafwyd trafodaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor yn yr haf ac yna cyfarfod rhwng y Rheolwr Addysg a nifer o'r Aelodau, i drafod yr effaith y byddai dileu'r hawl i dynnu plant allan o'r gwersi yn ei gael ar y pwnc. Awgrymwyd bod rhywfaint o gyngor ffurfiol yn cael ei roi i ysgolion lleol. Byddai'n cynnig cefnogaeth ac arweiniad o ran cael sgyrsiau gyda rhieni.
Rhannodd y canllawiau drafft gyda'r Aelodau a luniwyd drwy gyflwyniad PowerPoint.

Arweiniwyd yr Aelodau trwy'r canllawiau. Pwrpas y ddogfen oedd hysbysu athrawon am y rheoliadau ynghylch yr hawl i dynnu plant allan o'r gwersi, a'r rhesymeg sy'n sail i wneud hynny.

Mae adran gyntaf y papur drafft yn rhannu gwybodaeth ynghylch y ddeddfwriaeth a'r hawl i dynnu plant allan o'r gwersi. Roedd Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion a gynhelir ddarparu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg:

- fel elfen orfodol ar gyfer disgyblion rhwng 3-14 oed;
- fel elfen orfodol ar gyfer disgyblion rhwng 14-16 oed;
- ar gais ar gyfer disgyblion sydd y tu hwnt i oedran addysg orfodol.

Atgoffwyd yr Aelodau hefyd bod rhaid i leoliadau nas cynhelir ddarparu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i blant sy'n derbyn addysg feithrin a ariennir ond nas cynhelir.

Roedd dal hawl ganddynt i dynnu plant allan o sesiynau addoli ar y cyd. Felly, gellir tynnu plant o'r elfen addoli ar y cyd o wasanaeth mewn ysgol.
Ar hyn o bryd, roedd Addysg Grefyddol yn berthnasol i ddisgyblion blynyddoedd 7, 10 ac 11 a dim ond ar gyfer y blynyddoedd hyn yn unig yr oedd hawl i dynnu plant allan o wersi Addysg Grefyddol. Roedd y gwahanol hawliau ar gyfer gwahanol flynyddoedd ysgol wedi'u nodi'n glir yn y ddogfen, fel ei fod yn amlwg i ysgolion.

Ychwanegwyd adran ar y rhesymeg a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru wrth egluro pam eu bod yn dileu'r hawl i dynnu plant allan o'r gwersi. Roedd y cwricwlwm yn eang a chytbwys, ac roedd yn ddigon manwl ac agored ar gyfer y dysgwyr. Roedd y ddogfen yn rhannu manylion â'r rhiant neu'r darllenydd ynghylch rhai o'r canllawiau ar y lensys a'r pynciau sy'n rhan ohono.
Roedd ail hanner y ddogfen yn egluro wrth y darllenwyr beth i'w wneud a beth i'w osgoi, gan fod hyn yn cael ei ystyried fel ffordd hawdd a chyflym o gefnogi'r darllenydd. Fe arweiniwyd yr Aelodau drwy'r rhestr a oedd yn cynnwys yr amcanion gwrthrychol, beirniadol ac amlblwyfol. Pwysleisiwyd mai pwrpas y ddogfen oedd er mwyn gwneud pethau'n glir i rieni ac yn hawdd i'w deall.

Roedd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol yn gobeithio bod yr Aelodau'n cytuno â chynnwys y ddogfen ac agorodd y drafodaeth.
Diolchodd y Cadeirydd i'r Ymgynghorydd Addysg Grefyddol am rannu'r ddogfen a chadarnhaodd ei bod wedi'i dosbarthu i'r Pwyllgor cyn y cyfarfod.
Pwysleisiodd yr aelodau pa mor bwysig yw bod yn ymwybodol o safbwyntiau pobl a chefnogi'r disgyblion a'r teuluoedd hynny.
Cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol, pe bai disgybl yn cael ei dynnu allan o wers Addysg Grefyddol, y byddent yn aros ar safle'r ysgol ac yn ailymuno â'r dosbarth wedi i'r wers Addysg Grefyddol ddod i ben. Roedd sgyrsiau unigol rhwng teuluoedd ac ysgolion yn hanfodol er mwyn sicrhau y cedwir at ddymuniadau'r rhieni hefyd.

Gofynnodd y Cynghorydd Emrys Wynne a oedd arweiniad a chyfarwyddyd yn cael ei roi i'r sawl sy'n ymweld ag ysgolion, pan fyddant yn dod i siarad â'r plant. Roedd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol dan yr argraff ei fod yn amrywio o un ysgol i'r llall. Byddai ysgolion lle mae enwadau o'r fath, megis Gideons, yn ymweld â nhw yn derbyn rhywfaint o hyfforddiant ar yr hyn sy'n briodol wrth siarad â'r plant. Byddai staff addysgu bob amser yn bresennol pan fyddai unrhyw ymwelwyr yn bresennol yn yr ysgol. O bosibl y bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i rieni cyn y bydd unrhyw ymwelwyr yn dod draw i siarad â'r plant, fel eu bod yn ymwybodol, ond dewis yr ysgol fyddai hynny. Roedd diogelu bob amser yn elfen allweddol mewn ysgolion er mwyn sicrhau diogelwch disgyblion.

Diolchodd y Cynghorydd Gill German i’r Ymgynghorydd Addysg Grefyddol am y dogfennau eglur ac roedd yn fodlon iawn gyda chynnwys y papur. Pwysleisiodd bwysigrwydd amlygu’r gwahaniaeth rhwng addoli ar y cyd mewn ysgolion ac addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Yn olaf, roedd pwnc cwricwlwm ar gyfer dysgu am y byd ac ni chafwyd unrhyw farn gan aelodau staff.

Clywodd yr Aelodau fod CCYSAGC yn dymuno creu astudiaethau achos ar atebion i gwestiynau unigolion a allai gael eu cynnwys yn y papur, awgrymwyd efallai y byddai’n fuddiol dosbarthu copi i CCYSAGC, i gynorthwyo â’r gwaith hwnnw.

Nid oedd y swyddogion yn ymwybodol o unrhyw gynnydd yn nifer y disgyblion sy’n cael eu tynnu allan o wersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Pwysleisiodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol mai cyfrifoldeb CYSAGau a CYSau yw rhoi cyngor i ysgolion ynghylch addoli ar y cyd. Pe bai ysgol yn dymuno gwneud penderfyniad a newid natur eu gwasanaeth addoli ar y cyd, byddai’n rhaid iddynt gysylltu â’r Awdurdod Lleol i drin a thrafod.

***NODWYD** bod Aelodau Pwyllgor y CYSAG yn nodi’r adroddiad ar lafar.*

**6 CWRICWLWM I GYMRU, ARFERION NEWYDD - CYFLWYNIAD GAN YSGOL UWCHRADD PRESTATYN**

Croesawyd Kirsty a Maria gan y Cadeirydd, a oedd yn bresennol ar gyfer cyflwyno’r gwaith a oedd yn cael ei wneud gan Ysgol Uwchradd Prestatyn o ran y Cwricwlwm i Gymru, i’r Pwyllgor.

Rhoddwyd Cyflwyniad PowerPoint i'r Aelodau, yn canolbwyntio ar y gwaith a’r newidiadau a wnaed yn Ysgol Uwchradd Prestatyn. Rhannwyd manylion â’r Aelodau ynghylch sut yr arferai’r ysgol addysgu disgyblion blwyddyn 7 ac 8, mewn modd a oedd yn canolbwyntio llawer ar Gristnogaeth ac Islam yn unig. Teimlwyd, er yr arferid rhoi sylw i gyd-destun pob ardal, nad oedd y cyd-destun yng Ngogledd Cymru yn cael ei drafod gyda’r disgyblion.
Cyflwynwyd newid, a oedd yn ymwneud â chanolbwyntio ar y 4 pwnc ar draws y ddwy flynedd o addysg. Dyma’r 4 pwnc: Seintiau a phechaduriaid, trychinebau, dirgelion heb eu datrys ac ymgyrchu dros newid. Teimlwyd y byddai'r 4 pwnc yma’n meithrin dinasyddion uchelgeisiol, galluog a moesegol.
Esboniwyd wrth yr Aelodau ei fod yn orfodol ar gyfer y garfan TGAU yn Ysgol Uwchradd Prestatyn, ac y byddai pob disgybl yn sefyll arholiad TGAU Astudiaethau Crefyddol. Nodwyd mai ychydig iawn o ddisgyblion a oedd yn cael eu tynnu allan o’r gwersi Astudiaethau Crefyddol yn yr ysgol. Teimlwyd bod y newid yn y ffordd o addysgu a'r hyn yr oeddent yn canolbwyntio arno yn y gwersi wedi arwain at ganlyniad cadarnhaol. Roedd yr amserlen waith a’r pynciau yn cael eu rhannu â’r dysgwyr a’r rhieni gan yr ysgol ar ei gwefan.

Eglurwyd wrth yr Aelodau fod nifer o ddarparwyr allanol yn dod draw i’r ysgol i gefnogi a darparu sesiynau ar gyfer y disgyblion, gan gynnwys elusen MILK – Make Life Kind. Roedd y cwricwlwm newydd yn hybu annibyniaeth, yn annog disgyblion i

feddwl drostynt eu hunain, sefydlu safbwyntiau personol, bod yn agored a gallu siarad.

Ar ddiwedd unrhyw sesiwn, roedd y disgyblion yn llunio datganiadau ‘Dw i’n gallu’, a oedd yn dangos y cynnydd roeddent wedi’i wneud drwy gydol y gwersi. Roedd y staff addysgu wedi nodi’r gwelliant o ran disgwyliadau a chynnydd disgyblion. Roedd gwaith ar y gweill i wella ysgrifennu estynedig, gan ddefnyddio tasg o greu cyflwyniad ar rywun yr oedd y disgybl yn eu hystyried fel Sant. Rhannwyd llwybr llwyddiant ac adnoddau â’r disgyblion, a oedd yn galluogi iddynt ymestyn eu dealltwriaeth a’u hatebion. Roedd yn gyfle i’r disgyblion werthuso effaith Seintiau ar gymdeithas. Ar ddiwedd y pwnc, ceir asesiad, fel bod modd i’r dysgwyr ddod â phopeth maent wedi’i ddysgu drwy gydol y pwnc ynghyd ac arddangos eu dealltwriaeth a’u gwybodaeth.
Pwysleisiodd y cynrychiolwyr fod uchelgais gan yr ysgol o hyd o ran sut i wella’r hyn sy’n cael ei gynnig i ddisgyblion a chynnwys pob dysgwr. Teimlwyd bod y newidiadau wedi arwain at welliant sylweddol, ond fel ysgol a maes dysgu, roedd bob amser lle i wella. Rhannwyd canllawiau ac adnoddau â’r holl staff addysgu, er mwyn cefnogi datblygiad y dysgwyr mewn modd cyson. Roedd staff hefyd yn edrych ar ffyrdd o gyfuno meysydd pwnc eraill, gan gynnwys Hanes a Saesneg, er mwyn datblygu dealltwriaeth a faint o wybodaeth sydd gan ddysgwyr ymhellach. Er enghraifft, o ran hanes, pan fydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth am Robin Hood, manylu ymhellach a chynnwys yr elfen Seintiau a Phechaduriaid.

Yn yr ysgol, caiff cwricwlwm cyfrifoldeb cymdeithasol ei gynnig i ddisgyblion cyfnod allweddol 3. Maent yn derbyn un wers bob pythefnos, er mwyn ceisio annog disgyblion i ddod yn fwy cyfrifol yn gymdeithasol a gwneud penderfyniadau cywir o ran ethnigrwydd yn yr ysgol a’r gymuned. Roedd yr ysgol wedi sefydlu grŵp gwrth-wahaniaethol a oedd wedi derbyn gwobr Comisiynydd yr Heddlu yn ddiweddar.

Cyflwynwyd ac arweiniwyd yr Aelodau trwy siwrneiau rhai o’r dysgwyr a rhoddwyd pwyslais ar addasrwydd ac y gellid newid yr hyn sy’n digwydd mewn cymdeithas neu yn yr ysgol yn rhwydd.
Roedd y pwnc yn galluogi’r disgyblion, yn ogystal â’r staff addysgu, i fod yn fwy ymwybodol o’r gwahaniaeth rhwng yr hyn y mae pob disgybl yn ei wynebu yn eu bywydau o ddydd i ddydd.

Gofynnwyd i bob disgybl lenwi taflen hunan-fyfyrio gan nodi eu dealltwriaeth ac unrhyw feysydd y maent yn dymuno eu trafod mewn gwersi yn y dyfodol. Y disgyblion oedd yn llywio’r pynciau, gan edrych ar eu dymuniadau a’u hanghenion.

Ar ran y Pwyllgor, cymeradwywyd y ddau aelod o staff addysgu gan y Cadeirydd am y cyflwyniad manwl, llawn gwybodaeth. Gwnaeth y newidiadau a oedd yn cael eu cynnig i’r disgyblion, fel rhan o’r newidiadau i’r ffordd y mae’r disgyblion yn cael eu haddysgu, argraff fawr arni. Bu i rai o’r sylwadau a’r ffyrdd o weithio ei hannog i ystyried a chanfod y cysylltiadau rhwng meysydd pwnc megis daearyddiaeth a hanes, yn enwedig wrth ganolbwyntio ar bynciau fel Robin Hood.

Adleisiodd y Cynghorydd Gill German safbwyntiau’r Cadeirydd a diolchodd i'r staff addysgu am eu hamser a'u cyflwyniad manwl. Tynnodd sylw at y newidiadau cadarnhaol a wnaed yn Ysgol Uwchradd Prestatyn ac effaith hynny ar fywydau’r

disgyblion yn gyffredinol. Pwysleisiodd wrth y Pwyllgor mai'r disgyblion sy'n llywio'r cwricwlwm cyfrifoldeb cymdeithasol a'i fod yn cael ei arwain gan syniadau ac anghenion y disgyblion.
Eglurwyd wrth yr Aelodau fod y Gweinidog Addysg wedi dod draw i'r ysgol i weld elfen cyfrifoldeb cymdeithasol y cwricwlwm a bu i'r gwaith a wnaed gan yr ysgol a'i hymrwymiad parhaus i hynny greu argraff arno.

Diolchodd yr holl Aelodau i'r athrawon am y cyflwyniad a'r gwaith yr oeddent yn cyfrannu ato yn yr ysgol.

Mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau, cadarnhaodd yr athrawon fod un uned yn sôn am ddiogelwch cymdeithasol ar-lein, ond roeddent o'r farn bod y maes yn un eang a bod angen canolbwyntio mwy arno. Roedd llawer o wybodaeth ar gael i ddisgyblion a theuluoedd ar wefan MILK. Roedd hi'n bwysig cynnwys teuluoedd a theuluoedd ehangach yn achos unrhyw bryderon.

***NODWYD** bod yr Aelodau'n derbyn y cyflwyniad ar lafar ar arferion newydd y Cwricwlwm i Gymru yn Ysgol Uwchradd Prestatyn.*

## 7 CYMWYSTERAU

Rhannodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol rywfaint o wybodaeth ynghylch beth fyddai ar gael o 2025 ymlaen o ran cyfleoedd i Flwyddyn 10 ac 11 a TGAU.
Eglurwyd wrth yr aelodau fod Cymwysterau Cymru wedi bod yn cynnal ymgynghoriad ar fanylion posibl y gyfres newydd. Roedd disgwyliadau wedi'u gosod o ran ei nodweddion, ac fe'u cyflwynwyd i'r cyrff dyfarnu er mwyn cynllunio'r cynnwys TGAU ar gyfer Cymwysterau Cymru, i'w hunioni.
Roedd nifer o ymgynghoriadau wedi'u hadolygu gan gynnwys y cwricwlwm ehangach a'r cwricwlwm TGAU, o ran yr hyn a allai fod ar gael.

Rhannodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol wefan Cymwysterau Cymru ar y sgrin, er mwyn dangos lle mae modd dod o hyd i'r wybodaeth. Roedd yno wybodaeth am y cynnig eang oedd ar gael i bobl ifanc rhwng 14-16 oed, sef y cynnig sylfaenol. Roedd nifer o ddogfennau yn yr adran honno.

Gofynnwyd cwestiwn ynghylch a ddylid cael cymhwyster addysg grefyddol/ astudiaethau crefyddol. Roedd 60% o'r ymatebion a dderbyniwyd yn nodi y dylid cael cymhwyster lefel sylfaenol unigol ar gyfer addysg grefyddol. Er bod yr ymgynghoriad a dderbyniwyd yn un cadarnhaol, ni fyddent yn cynnig cymhwyster crefydd, gwerthoedd a moeseg. Yn hytrach, maent yn cynnig cymhwyster Sgiliau am Oes, sy'n cynnwys nifer o unedau. Roedd 3 uned ar gael i ysgolion: 1-ffydd, credoau a'r gymuned leol, 2- dewisiadau moesegol a 3 gwerthoedd am oes. Roedd ysgolion yn gallu ymuno a dewis o'r meysydd hynny.

Cyfeiriwyd yr Aelodau gan yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol at yr adran penderfyniadau TGAU Gwneud-i-Gymru ar y wefan, a oedd yn darparu canllawiau a gwybodaeth. Roedd crynodeb o'r ymgynghoriad hefyd ar gael ar-lein. Cafodd adran ar y canlyniadau ei chynnwys hefyd ac fe eglurwyd wrth yr Aelodau bod adran o fewn y maes hwnnw a oedd yn ymdrin ag Addysg Grefyddol. Eglurwyd y byddai'n rhaid i ddisgyblion, er mwyn cwblhau cymhwyster TGAU, astudio

Cristnogaeth, un grefydd arall a dyneiddiaeth. Nid oedd yr Aelodau yn Sir Ddinbych o'r farn bod dyneiddiaeth yn adlewyrchu'r credoau athronyddol anghrefyddol eang a chytbwys a oedd yn fath o anffyddiaeth.
Cyn hynny, y grefydd arall oedd Bwdhaeth, Hindŵaeth, Islam, Iddewiaeth neu Sikhaeth. Nid oedd Sikhiaeth yn cael ei chynnig fel crefydd amgen ar gyfer Lefel A.

Eglurwyd wrth yr Aelodau y penderfynwyd y byddai asesiad di-arholiad ar gyfer 40% o'r cymhwyster ac y byddai arholiad ar gyfer y 60% sy'n weddill. Roedd y dysgwyr yn cael cwblhau rhai o'r unedau asesu cyn diwedd y cwrs.
Newidiwyd i ddefnyddio arholiadau digidol ar-lein. Eglurwyd wrth yr Aelodau bod ffenest bum mlynedd o ddechrau'r ddarpariaeth i gael gweld beth fyddai ynghlwm â hynny.

Rhoddwyd gwybod i ysgolion hefyd am y cymhwyster Agored a oedd yn cael ei gynnig – sef Archwilio Bydolygon. Roedd sawl ysgol wedi newid i ddefnyddio'r cymhwyster hwn. Nid oedd un enghraifft benodol ac roedd yn fwy seiliedig ar waith cwrs, ac wedi'i gynllunio i gyd-fynd â'r cwricwlwm crefydd, gwerthoedd a moeseg.

Hefyd, roedd yna dystysgrif Lefel 2 NCFE – Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Roedd yn wahanol i rai o'r cymwysterau eraill gan nad oes rhaid cynnwys unrhyw grefydd i ennill y cymhwyster, ond gallech gynnwys nifer o gredoau a chrefyddau ar gyfer ennill y cymhwyster. Roedd hyn wedi disodli'r TGAU Astudiaethau Crefyddol mewn nifer o ysgolion gan gael gwared ar y cynnwys crefyddol a oedd yn rhan o'r cwrs.

***NODWYD** bod yr Aelodau'n nodi'r diweddariad ar lafar ynghylch Cymwysterau.*

## 8 CCYSAGC

- **Cofnodion CCYSAGC – 25 Hydref 2023**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Cymru (CCYSAGC) a gynhaliwyd dros y we ar 25 Hydref 2023 (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

Rhannodd Jennie Downes a oedd yn cynrychioli Enwadau Crefyddol a Chredoau Athronyddol Anghrefyddol rai pwyntiau allweddol i'w nodi o gyfarfod diwethaf CCYSAGC i'r Aelodau.

Dywedodd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 5 Mawrth 2024.

Codwyd cwestiwn ynghylch cosb gorfforol ac a oedd wedi'i chynnwys fel enghraifft o gred athronyddol. Roedd trafodaethau mewnol gyda Llywodraeth Cymru yn dal i gael eu cynnal ynghylch y penderfyniad hwnnw.
Roedd CCYSAGC yn dal i aros am ymateb gan Lywodraeth Cymru ynghylch y diffiniad o grefydd.

Roedd nifer o adroddiadau blynyddol yn cael eu hadolygu gan CCYSAGC. Ceir trafodaethau ynghylch yr hyn sy'n cael ei gynnwys yn yr adroddiadau blynyddol a byddent ar gael i'w gweld. Bydd gwaith yn cael ei wneud i ddiweddaru gwefan

CCYSAGC er mwyn cael fforwm ehangach i rannu'r hyn sy'n digwydd mewn CYSau a CYSAGau unigol.

Roedd y rhaglen Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol yn darparu adnoddau i gefnogi ymarferwyr sy'n darparu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Cafodd ei greu a'i gyhoeddi ar Hwb fel rhan o gydweithrediad rhwng CCYSAGC a Llywodraeth Cymru.

Anogwyd yr aelodau i archebu lle yng nghynhadledd CCYSAGC, a gynhelir ar 13 Mehefin 2024. Nid oedd cost i fynychu ac roedd cinio'n cael ei ddarparu. Y gobaith oedd y byddai Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn siarad. Byddai nifer o wahanol feysydd a chyflwyniadau yn cael eu rhannu ar y diwrnod. Byddai nifer o gyflwyniadau ar gael ar ôl y gynhadledd.
Byddai'r gynhadledd yn cael ei chynnal wyneb yn wyneb ym Mhrifysgol Wrecsam, a byddai rhai agweddau, o bosib, ar gael yn dilyn y gynhadledd.

***NODWYD*** *bod cofnodion cyfarfod CCYSAGC a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2023 yn cael eu derbyn.*

**9 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Cynhelir cyfarfod nesaf CYSAG Sir Ddinbych ar 26 Mehefin 2024.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.40am.**

| | | |
|---|---|---|
| **Cyngor Sir Ddinbych**<br>**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)** | | |
| Dyddiad y Cyfarfod: | | 15 Mehefin 2023 |
| Eitem ar y Rhaglen: | **5** | Manylion yr Adroddiad |

*Cefndir yr Adroddiad:*

Yn diweddar cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddeunyddiau dysgu proffesiynol i gynorthwyo athrawon ac uwch arweinwyr i ddeall a chynllunio ar gyfer addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

*Pwrpas yr Adroddiad:*

Hybu dealltwriaeth aelodau o'r gofynion a'r goblygiadau o ran cynllunio ar gyfer addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn ysgolion.

- Modiwl Cymraeg - https://hwb.gov.wales/repository/resource/eef7e399-93bb-4d7c-ab68-145c93f4c6d3
- Modiwl Saesneg - https://hwb.gov.wales/repository/resource/eef7e399-93bb-4d7c-ab68-145c93f4c6d3

*Argymhellion:*

- Derbyn y cyflwyniad.
- Bod yr aelodau'n sicrhau bod ysgolion yn ymwybodol o'r adnoddau hyn.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<table>
<tr><td colspan="3">Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad y Cyfarfod:</td><td>15 Mehefin 2023</td></tr>
<tr><td>Eitem ar y Rhaglen:</td><td>6</td><td>Manylion yr Adroddiad</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Cefndir yr Adroddiad:</u><br>Mae'r ysgolion yn cynllunio ar gyfer, ac yn rhoi'r Cwricwlwm Newydd i Gymru ar waith.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Pwrpas yr Adroddiad:</u><br>Derbyn cyflwyniad gan Ysgol y Santes Ffraid, Dinbych, ar sut maent yn cynllunio ar gyfer, ac yn rhoi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar waith o fewn y Cwricwlwm i Gymru.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Argymhellion:</u><br>▪ Derbyn y cyflwyniad.<br>▪ Efallai y bydd aelodau sydd hefyd yn lywodraethwyr neu'n athrawon yn ystyried sut mae eu hysgol nhw'n rhoi Crefydd Gwerthoedd a Moeseg ar waith.</td></tr>
</table>

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| **Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)** | | |
|---|---|---|
| Dyddiad y Cyfarfod: | | 15 Mehefin 2023 |
| Eitem ar y Rhaglen: | **7** | Manylion yr Adroddiad |
| *Cefndir yr Adroddiad:*<br>Mae ar y CYSAG ddyletswydd statudol i fonitro darpariaeth Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd mewn ysgolion ac mae'n hen arfer ganddo i dderbyn a dadansoddi adroddiadau arolygon Estyn ym mhob cyfarfod. | | |
| *Pwrpas yr Adroddiad:*<br>Rhoi gwybod i'r aelodau am ganlyniadau adroddiadau arolygon ysgolion diweddar Estyn. | | |
| *Argymhellion:*<br>▪ Derbyn yr adroddiad.<br>▪ Anfon llythyr i bob ysgol i roi gwybod iddyn nhw bod adroddiad eu harolwg wedi ei ystyried, eu llongyfarch ar yr elfennau da a nodwyd, a'u hatgoffa o wasanaethau'r Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol a'r Swyddogion Gwella Ysgolion mewn perthynas ag unrhyw faes sydd angen ei ddatblygu neu unrhyw fater y mae angen mynd i'r afael ag o.<br>▪ Gofyn i'r Awdurdod Lleol ddosbarthu'r llythyrau i'r ysgolion perthnasol. | | |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Dadansoddi Adroddiadau Arolygu
# CYSAG Sir Ddinbych

## Haf 2024

**Adroddiadau a gyhoeddwyd rhwng 7 Mehefin 2023 ac 1 Mai 2024**

| Ysgol | Dyddiad Cyhoeddi'r Adroddiad |
|---|---|
| **Ysgol Bryn Collen** | **01/05/2024** |
| Iaith y darparwr - Saesneg<br>Math o ysgol - Cynradd<br>Nifer y disgyblion ar y gofrestr - 156<br>Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim - 9.8% (23.7%)<br>Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol - 3.8% (13.2%)<br>Dyddiad penodi'r pennaeth - 01/01/2018<br>Dyddiad arolwg blaenorol Estyn - 16/11/2014<br>Dyddiad dechrau'r arolwg - 26/02/2024 | |
| **Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd** | **11/04/2024** |
| Iaith y darparwr - Dwyieithog<br>Math o ysgol - Cynradd<br>Cymeriad Crefyddol – Ysgol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru<br>Nifer y disgyblion ar y gofrestr - 112<br>Canran y disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ar gyfartaledd dros dair blynedd - 5.4%<br>Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol - 6.9%<br>Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref - 39.1%<br>Canran y disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol - 0.0%<br>Dyddiad penodi'r pennaeth - 01/09/2023 (Dros Dro) 01/01/2024 (Parhaol)<br>Dyddiad arolwg blaenorol Estyn - Rhagfyr 2015<br>Dyddiad dechrau'r arolwg - 05/02/2024 | |
| **Ysgol Melyd** | **25/03/2024** |
| Iaith y darparwr - Saesneg<br>Math o ysgol - Cynradd<br>Nifer y disgyblion ar y gofrestr - 162<br>Canran y disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ar gyfartaledd dros dair blynedd - 31.6%<br>Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol - 40.8%<br>Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref - 5.0%<br>Canran y disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol - 0%<br>Dyddiad penodi'r pennaeth - 01/09/2016<br>Dyddiad arolwg blaenorol Estyn - 01/04/2015<br>Dyddiad dechrau'r arolwg - 22/01/2024 | |
| **Ysgol Clawdd Offa** | **25/03/2024** |
| Iaith y darparwr - Saesneg<br>Math o ysgol - Cynradd<br>Nifer y disgyblion ar y gofrestr - 359<br>Canran y disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ar gyfartaledd dros dair blynedd - 37.8%<br>Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol - 33.6%<br>Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref - 0%<br>Canran y disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol - 2.9%<br>Dyddiad penodi'r pennaeth - 01/09/2008 | |

| | |
|---|---|
| Dyddiad arolwg blaenorol Estyn - 01/02/2016<br>Dyddiad dechrau’r arolwg - 21/11/2024 | |
| **Ysgol Hiraddug** | **01/02/2024** |
| Iaith y darparwr - Saesneg<br>Math o ysgol - Cynradd<br>Nifer y disgyblion ar y gofrestr - 215<br>Canran y disgyblion sy’n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ar gyfartaledd dros dair blynedd - 18.5%<br>Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol - 20.6%<br>Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg gartref - 0.5%<br>Canran y disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol - 2.6%<br>Dyddiad penodi’r pennaeth - 01/09/2016<br>Dyddiad arolwg blaenorol Estyn - 14/01/2015<br>Dyddiad dechrau’r arolwg - 27/11/2023 | |
| **Ysgol Brynhyfryd** | **11/12/2023** |
| Iaith y darparwr - Cymraeg<br>Math o ysgol - Uwchradd<br>Nifer y disgyblion ar y gofrestr - 1053<br>Nifer yn y chweched dosbarth - 189<br>Canran y disgyblion sy’n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ar gyfartaledd dros dair blynedd - 7.2% (20.2%)<br>Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol - 11.7% (17.8%)<br>Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg gartref - 43.5%<br>Canran y disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol - 0.7%<br>Dyddiad penodi’r pennaeth - 03/04/2023<br>Dyddiad arolwg blaenorol Estyn - 09/10/2023 | |
| **Ysgol Bro Dyfrdwy** | **27/12/2023** |
| Iaith y darparwr - Cymraeg<br>Math o ysgol - Cynradd<br>Nifer y disgyblion ar y gofrestr - 125<br>Canran y disgyblion sy’n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ar gyfartaledd dros dair blynedd - 8.7%<br>Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol - 11.3%<br>Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg gartref - 50.9%<br>Canran y disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol - 0%<br>Dyddiad penodi’r pennaeth - 01/09/2020<br>Dyddiad arolwg blaenorol Estyn - 09/06/2015<br>Dyddiad dechrau’r arolwg - 23/10/2023 | |
| **Ysgol Christchurch** | **27/11/2023** |
| Iaith y darparwr - Saesneg<br>Math o ysgol - Cynradd<br>Nifer y disgyblion ar y gofrestr - 435<br>Canran y disgyblion sy’n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ar gyfartaledd dros dair blynedd - 61%<br>Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol - 31%<br>Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg gartref - 0%<br>Canran y disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol - 7.5%<br>Dyddiad penodi’r pennaeth - 01/09/2018<br>Dyddiad arolwg blaenorol Estyn - 01/05/2015<br>Dyddiad dechrau’r arolwg - 25/09/23 | |
| **Ysgol Emmanuel** | **07/08/2023** |
| Iaith y darparwr - Saesneg<br>Math o ysgol - Cynradd | |

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr - 466<br>Canran y disgyblion sy’n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ar gyfartaledd dros dair blynedd - 52.2%<br>Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol - 19.5%<br>Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sy’n siarad Cymraeg gartref - 0%<br>Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol - 4%<br>Dyddiad penodi’r pennaeth - 01/01/2020<br>Dyddiad arolwg blaenorol Estyn - 01/01/2015<br>Dyddiad dechrau’r arolwg - 05/06/23 | |
| **Ysgol Bro Famau** | **06/07/2023** |
| Iaith y darparwr - Saesneg<br>Math o ysgol - Cynradd<br>Nifer y disgyblion ar y gofrestr - 64<br>Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol - 15.1%<br>Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol - 0%<br>Dyddiad penodi’r pennaeth - 01/11/2015<br>Dyddiad arolwg blaenorol Estyn - 19/05/2014<br>Dyddiad dechrau’r arolwg - 02/05/23 | |

### Lles ac agweddau at ddysgu

- Mae disgyblion yn dangos dealltwriaeth addas o amrywiaeth. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn astudio Ruby Bridges ac mae disgyblion hŷn yn astudio Martin Luther King a Rosa Parks fel rhan o Fis Hanes Pobl Dduon. (Ysgol Bryn Collen)
- Mae bron pob disgybl yn datblygu dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion moesol ac egwyddorol. Maen nhw’n datblygu’r gallu a’r hyder i drafod eu teimladau gyda phobl eraill a dangos empathi tuag at bobl eraill sydd mewn gofid. Wrth wneud hyn, bydd eu hymwybyddiaeth o degwch a chydraddoldeb yn datblygu’n effeithiol. (Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd)
- Erbyn Blwyddyn 6, bydd gan nifer o ddisgyblion ddealltwriaeth aeddfed o’u hawliau a hawliau pobl eraill ar draws y byd. Mae ganddyn nhw werthfawrogiad deallus o sut mae amgylchiadau rhai plant yn effeithio ar sut maen nhw’n byw a’r rhwystrau maen nhw’n eu hwynebu. Er enghraifft, maen nhw’n darllen stori Malala Yousafzai, y person ieuengaf i ennill Gwobr Heddwch Nobel a siarad yn fywiog am y safiad dewr a gymerodd i sicrhau ei bod yn mynychu’r ysgol. (Ysgol Clawdd Offa)
- Mae disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o amrywiaeth ddiwylliannol, er enghraifft wrth ddysgu am wahanol grefyddau. Maen nhw’n dechrau deall rhai o’r materion moesol sy’n wynebu’r byd, fel y problemau y mae gwastraff yn eu hachosi i’r amgylchedd. Mae aelodau o Gyngor yr Ysgol yn falch o’u hymdrechion ac maen nhw’n cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol, er enghraifft trwy godi arian i ysgol yn Uganda. (Ysgol Bro Dyfrdwy)
- Mae disgyblion yn datblygu’n dda iawn fel dinasyddion moesegol, gwybodus. Maen nhw’n cymryd rolau a chyfrifoldebau arwain a chwarae rhan lawn a gweithredol ym mywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae’r Eco Gyngor yn annog eu cyfoedion i fod yn ymwybodol o sbwriel o amgylch yr ysgol a’r gymuned leol, fel pan fyddan nhw’n cymryd rhan mewn digwyddiadau casglu sbwriel y tu allan i’r ysgol ac mewn parciau lleol i ddiogelu plant ac anifeiliaid. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall eu hawliau a’u cyfrifoldebau trwy eu gwaith ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn. (Ysgol Emmanuel)

### Addysgu a dysgu

- Mae athrawon yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n adeiladu'n systematig a chyson ar wybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau a phrofiad presennol disgyblion. (Ysgol Bryn Collen)
- Mae arweinwyr a staff wedi gweithio'n llwyddiannus i ddatblygu cwricwlwm yr ysgol i fodloni gofynion y Cwricwlwm i Gymru. (Ysgol Bryn Collen) Mae staff ar draws yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda disgyblion, rhieni ac ysgolion lleol i ddatblygu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n diwallu anghenion nifer o ddisgyblion yn dda. (Ysgol Melyd)
- Mae cwricwlwm yr ysgol yn alinio'n briodol ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru ac mae'n darparu cydbwysedd addas ar draws meysydd dysgu a phrofiad ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion. (Ysgol Clawdd Offa)
- Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm cytbwys a chynhwysol sy'n bodloni gofynion y rhan fwyaf o ddisgyblion. (Ysgol Brynhyfryd)
- Trwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddathlu amrywiaeth a pharchu gwahanol grefyddau. (Ysgol Bro Dyfrdwy)
- Mae'r ysgol yn datblygu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n canolbwyntio'n addas ar ei gyd-destun lleol a lles disgyblion. (Ysgol Christchurch)
- Maen nhw [disgyblion] yn gwerthfawrogi artistiaid a cherddorion o Gymru gan ddysgu am ddinasyddion dylanwadol o Gymru fel John Davies, ysgolor Cymreig o Lanferres a fu'n rhan o'r gwaith o gyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg.

**Gofal, cefnogaeth ac arweiniad**

- Mae darpariaeth ar gyfer dealltwriaeth ysbrydol, moesol ac ethegol disgyblion yn effeithiol. Mae cydaddoli a gweithgareddau ystafell ddosbarth yn annog disgyblion i fyfyrio ar eu gwerthoedd a'u credoau eu hunain yn effeithiol. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion arwain trafodaethau mewn gwasanaethau am amrywiaeth o faterion. (Ysgol Bryn Collen)
- Mae disgyblion yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i ddathlu eu Cymreictod a theimlo eu bod yn perthyn i'r gymuned leol. Mae cyfleoedd rheolaidd ar gael i rannu a dathlu'r agweddau hyn trwy amrywiaeth o weithgareddau a gaiff eu dathlu trwy arddangosfeydd nodedig yn yr ysgol ac ar gyfryngau cymdeithasol. Er enghraifft, cynhelir gwasanaeth Diolchgarwch y Cynhaeaf yn yr Eglwys, a gwahoddir y cyhoedd i gyfrannu at fanc bwyd lleol. (Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd)
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol a chymdeithasol y disgyblion yn gadarn. Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr rheolaidd i fyfyrio ar ethos a gwerthoedd yr ysgol. Mae hyn yn eu helpu i ddeall materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac mae'n datblygu gwerthoedd fel parch ac empathi yn llwyddiannus. (Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd)
- Mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu a hyrwyddo eu dealltwriaeth o gysyniadau a gwerthoedd fel amrywiaeth ddiwylliannol, cynhwysiant a thegwch. Er enghraifft, bu disgyblion iau yn creu patrymau Rangoli i ddathlu Divali ac mae'r disgyblion hŷn yn dathlu Mis Hanes Pobl Dduon trwy astudio pobl dduon dylanwadol, fel Martin Luther King Jr a Rosa Parks. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn ac empathi at rai o'r heriau ac anawsterau mae pobl eraill yn eu hwynebu bob dydd. Mae'r ysgol yn defnyddio ei chysylltiadau â'r ysgol uwchradd leol yn effeithiol i fynychu 'Wythnos Diwylliant ac Amrywiaeth', lle mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gwahanol weithdai dawns, cerddoriaeth a chelf. (Ysgol Melyd)

- Mae'r ysgol yn addysgu disgyblion i fod yn barchus ac empathig. Ar draws yr ysgol, mae'r holl staff yn hyrwyddo cydweithredu, gan atgyfnerthu disgwyliadau ysgol gyfan o oddefgarwch ac ystyriaeth, ac maen nhw'n disgwyl ymddygiad cymdeithasol gyfrifol gan ddisgyblion. Maen nhw'n ymgysylltu'n dda â digwyddiadau cenedlaethol i ddarparu cyd-destun dilys i ddisgyblion ddatblygu eu gwerthoedd a'u dealltwriaeth o anghenion pobl eraill. (Ysgol Melyd)
- Mae gwasanaethau ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion fyfyrio ar eu credoau a'u gwerthoedd. Mae staff yn galluogi disgyblion i wneud cyfraniadau addas i fywyd eu cymuned ac mae'r profiadau hyn yn helpu disgyblion i barchu ei gilydd a datblygu empathi a thosturi. Er enghraifft, bydd disgyblion yn ymweld â chartref preswyl i'r henoed lleol i ganu carolau adeg y Nadolig a chynnal digwyddiadau codi arian gyda chefnogaeth busnesau lleol i helpu'r rhai mewn angen. (Ysgol Clawdd Offa)
- Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar gynhwysiant ac mae'n croesawu pob diwylliant a chenedligrwydd. Er enghraifft, o ganlyniad i efeillio gydag ysgol gynradd yng Ngwlad Pwyl, mae'r disgyblion yn dysgu am ddiwylliant ei gilydd a helpu eu cyfoedion yn Warsaw i ddatblygu eu sgiliau Saesneg. Mae'r athrawon yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o ffydd ac ysbrydolrwydd trwy archwilio amrywiaeth o gredoau, fel trwy ddysgu am Diwali ac Eid. Mae'r cyfleoedd hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth ac maen nhw'n helpu disgyblion i gwestiynu rhagdybiaethau stereoteip am wahaniaeth. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer cydaddoli wedi'i datblygu cystal ar draws yr ysgol. (Ysgol Hiraddug)
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda. Caiff hyn ei wneud trwy wasanaethau, gweithgareddau 'munud i feddwl' a thrwy'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol. Mae'r rhaglen wedi'i theilwra i anghenion lles disgyblion, fel bo'r angen, gan gynnwys cyflwyniadau gan siaradwyr gwadd, asiantaethau allanol a diwrnodau iechyd a lles. Er enghraifft, cynhelir gwasanaeth a sesiynau bore ar 'Ddiwrnod Iechyd Meddwl y Byd' i godi ymwybyddiaeth a chefnogi disgyblion i ddeall a chael cefnogaeth, fel bo'r angen. (Ysgol Brynhyfryd)
- Mae ethos yr ysgol a'r gwasanaethau cyd addoli yn hybu datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r staff yn annog disgyblion i fyfyrio ar werthoedd fel tegwch, cyfeillgarwch a charedigrwydd ac i ystyried barn pobl eraill mewn modd sensitif, er enghraifft, pan fydd y disgyblion hynaf yn arwain gwasanaeth ar Ddangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth. Mae dysgu am Gristnogaeth a chrefyddau eraill trwy wersi a sesiynau cydaddoli yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd goddefgarwch a'r hawl i beidio dioddef aflonyddu. Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am y byd ehangach. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn trafod y gwahaniaethau rhwng bywydau plant yn Uganda a Ghana a'u bywyd yma yng Nghymru mewn modd aeddfed. (Ysgol Bro Dyfrdwy)
- Mae trefniadau priodol ar waith ar gyfer datblygu credoau ysbrydol a moesol disgyblion, er enghraifft, trwy gydaddoli pan fydd disgyblion yn myfyrio ar werthoedd a phwysigrwydd parchu eraill. (Ysgol Christchurch)
- Yn gyffredinol, mae darpariaeth yr ysgol i gefnogi datblygiad ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. (Ysgol Emmanuel)
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn effeithiol trwy amrywiaeth o weithgareddau creadigol, gan gynnwys prosiectau gwrth-fwlio. Mae gwasanaethau ysgol gyfan a dosbarth yn darparu cyfleoedd buddiol i ddatblygu dealltwriaeth ysbrydol a moesol disgyblion, er enghraifft, wrth roi

ystyriaeth i gysylltiadau rhwng gwahanol ffydd trwy thema goleuni. Mae dulliau o ddatblygu sgiliau personol a chymdeithasol disgyblion trwy gysylltiadau â'r gymuned, er enghraifft, yn helpu disgyblion i werthfawrogi materion sy'n ymwneud â'u lles a'u dewisiadau o ran ffordd o fyw. Mae defnyddio ymwelwyr o'r gymuned yn effeithiol, fel aelodau o fannau addoli lleol, yn helpu disgyblion i deimlo'n rhan o'r gymuned ac mae'n eu hannog i gymryd rhan mewn prosiectau cymunedol. (Ysgol Bro Famau)

<table>
<tr><td colspan="3">Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol<br>(CYSAG)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad y Cyfarfod:</td><td>15 Mehefin 2023</td></tr>
<tr><td>Eitem ar y Rhaglen:</td><td>8</td><td>Manylion yr Adroddiad</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Cefndir yr Adroddiad:</u><br><br>Mae’r CYSAG yn parhau i fod yn aelod o Gymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru ac yn derbyn adroddiadau ar gyfarfodydd y mae aelodau'n mynd iddynt, copïau o'r cofnodion ac unrhyw adroddiadau eraill gan y Gymdeithas.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Pwrpas yr Adroddiad:</u><br><br>Bod yr aelodau’n cael gwybod am bwyslais a phrif ganlyniadau’r cyfarfod blaenorol.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Argymhellion:</u><br><br>• Derbyn cofnodion cyfarfod diwethaf y Gymdeithas ar 21 Mawrth 2023.<br>• Cytuno ar bresenoldeb cyfarfod nesaf y Gymdeithas ar 19 Mehefin 2023. (Sir Ddinbych sy’n ‘gwesteio’ cyfarfod haf y Gymdeithas).</td></tr>
</table>

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag